

Addasiadau Tai: Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Gorffennaf 2018

Cyflwyniad

Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad ar Addasiadau Tai ym mis Chwefror 2018. Roedd yr adroddiad yn ystyried a oes gan gyrff cyhoeddus, sydd â chyfrifoldebau dros ddarparu addasiadau tai, ddull gweithredu strategol effeithiol sy'n darparu gwerth am arian.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod bodlonrwydd defnyddwyr gydag addasiadau tai yn cuddio system hynod gymhleth, adweithiol ac anghyfartal nad yw'n darparu ar gyfer pawb a allai fod ei angen, ac nad yw gyrff cyhoeddus yn manteisio ar gyfleoedd i gynyddu gwerth am arian. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y system bresennol ar gyfer darparu addasiadau yn cadarnhau'r anghydraddoldebau ar gyfer rhai pobl anabl a phobl hŷn, a bod y gwahanol ffynonellau cyllid yn cymhlethu'r gallu i fynd i'r afael ag anghenion. Canlyniad y gwahaniaethau hyn yw bod pobl sydd ag anghenion tebyg i'w gilydd yn cael gwasanaeth o safonau gwahanol oherwydd dewisiadau polisi gyrff cyhoeddus. Er bod gyrff cyhoeddus yn bendant ynglŷn â manteision addasiadau yn gyffredinol, nid yw dulliau gweithio mewn partneriaeth yn mynd i'r afael â'r angen mewn modd effeithiol.

Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol chwe argymhelliad i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a chyrrff gofal a thrwsio, a derbyniwyd pob un ohonynt.

Cytunodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gynnal ymchwiliad byr i'r materion a nodir yn yr adroddiad. Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar bedair prif thema yn ei adolygiad:



- Lleihau anghydraddoldebau o ran polisïau addasiadau;
- Gwella effeithiolrwydd wrth ddarparu addasiadau;
- Adolygiad GALLUOGI Llywodraeth Cymru; a
- Gwella goruchwyliaeth a barnu effaith.

Wrth gwblhau'r adolygiad, daeth yn amlwg bod nifer o'r gwendidau a amlygwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn enwedig mewn cysylltiad â loteri cod post o ran hawliau, sy'n aml yn cadarnhau yn hytrach na mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn hysbys iawn. Mae'r rhain yn faterion hirsefydlog, sy'n aml yn dyddio'n ôl i 2005, y mae Llywodraeth Cymru a chyrff darparu wedi methu â mynd i'r afael â hwy. O ganlyniad, fe geisiodd y Pwyllgor sicrhau ei hun bod cydnabyddiaeth o'r angen brys i fynd i'r afael â'r problemau hyn ac i'w datrys.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru, gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), gan ddau awdurdod lleol (Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful), gan Gartrefi Cymunedol Cymru, gan Gofal a Thrwsio Cymru, gan Tai Pawb, gan Anabledd Leonard Cheshire a chan Anabledd Cymru. Mae rhestr lawn o'r tystion a ddarparodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, ynghyd â'r trawsgrifiadau, ar gael yn Atodiad A.

Mae canfyddiadau allweddol ymchwiliad y Pwyllgor wedi'u nodi isod.

1. Anghydraddoldeb o ran polisïau addasiadau

1. Mae llawer o ffynonellau cyllid a pholisïau ar gyfer addasiadau, sy'n arwain at fod pobl anabl a phobl hŷn yn cael gwasanaeth o safonau gwahanol iawn. Er mwyn mynd i'r afael â'r anghysondebau hyn, roedd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru osod safonau ar gyfer pob addasiad i sicrhau bod pobl anabl a phobl hŷn yn cael gwasanaeth o'r un safon waeth ble maent yn byw, pwy yw eu landlord ac a ydynt yn berchen ar eu cartref eu hunain ai peidio.

2. Mae adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn disgrifio cymhlethdodau'r gyfundrefn gyllido gyfredol, gyda gwahanol grantiau, gwahanol ffynonellau cyllid a gwahanol flaenoriaethau'r cyrff darparu yn golygu bod pobl anabl a phobl hŷn yn cael gwasanaethau gwahanol iawn, yn dibynnu ar ble maent yn byw, pwy sy'n darparu'r addasiad, ac a ydynt yn berchen ar eu cartrefi

ynteu'n rhentu eu cartrefi. Mae adroddiad diweddar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn adleisio'r casgliadau hyn.¹

3. Derbyniodd Llywodraeth Cymru y canfyddiadau hyn a nododd ei chynnydd hyd yma o ran argymhellion a gyfeiriwyd ati yn benodol.² Ni ddarparwyd sylwebaeth, fodd bynnag, ar yr argymhellion ehangach nac am sut y gallent gysylltu â'r adolygiad Galluogi. Mewn ymateb i Argymhelliad un ar safonau gwasanaeth, dywed Llywodraeth Cymru:

“Yn ystod y deuddeg mis nesaf, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws amrywiaeth o ddeiliadaethau i nodi'r agweddau hynny ar y gwaith hwn a allai elwa fwyaf ar safonau gwasanaeth cytunedig yn ogystal â chytuno ar beth allai'r safonau hynny fod.”

4. Roedd y rhan fwyaf o'r tystion yn cydnabod bod y system ar gyfer darparu addasiadau yn gymhleth, a bod anghysonderau mawr rhwng asiantaethau, ar draws deiliadaethau a rhwng ardaloedd daearyddol. Cyfeiriodd nifer at brofiad loteri cod post y bobl hŷn a'r bobl anabl sydd angen cymorth. Roedd cydnabyddiaeth y byddai safonau gwasanaeth cenedlaethol yn helpu i oresgyn rhai o'r amrywiadau. Derbyniwyd ei bod yn gymharol hawdd gwneud hyn ac y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi mynd i'r afael â hyn dro'n ôl.

5. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru pam mae wedi cymryd cyhyd iddi oresgyn y materion a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Dywedodd Tracey Burke, y Cyfarwyddwr Cyffredinol, wrthym ei bod hi hefyd yn holi pam na roddwyd sylw i'r materion hyn, o gofio nad ydynt yn faterion newydd. Derbyniodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod perfformiad gwael a chynnydd araf wedi creu teimlad o rwystredigaeth i swyddogion a Gweinidogion tai olynol.³ Daeth Ms Burke i'r casgliad bod adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol wedi bod yn sbardun pellach ar gyfer y gwaith sydd ei angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac i wella perfformiad.⁴

6. Er gwaethaf y gydnabyddiaeth galonogol hon, rydym yn cwestiynu a oes awydd sylfaenol i fynd i'r afael â'r problemau parhaol hyn, o gofio hanes llwyddiant Llywodraeth Cymru, a'i diffyg cynnydd wrth wella'r agwedd hon ar gyflwyno addasiadau.

¹ Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, [Tai a phobl anabl: Argyfwng cudd Cymru'](#), tudalen 18 (Mai 2018)

² Tystiolaeth ysgrifenedig, [PAC\(5\)-17-18 Papur 1](#), 18 Mehefin 2018 (Saesneg yn unig)

³ Cofnod y Trafodion (RoP), 25 Mehefin 2018, Paragraff 238

⁴ Cofnod y Trafodion, 25 Mehefin 2018, Paragraff 247

2. Gwella effeithlonrwydd wrth ddarparu addasiadau

7. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y ffaith bod gwybodaeth hygyrch, o ansawdd da, yn hanfodol i sefydliadau darparu ddangos mynediad teg a thryloywder o ran addasiadau. Fodd bynnag, mae gwendidau yn y trefniant gwybodaeth presennol yn cyfyngu ar faint sy'n manteisio ar y gwasanaeth ac yn ei ddefnyddio. Er bod sefydliadau darparu 'yn rhoi gwybodaeth am addasiadau tai yn y Gymraeg a'r Saesneg, nid yw nifer sylweddol o sefydliadau darparu yn rhoi gwybodaeth mewn fformatau hygyrch eraill. Er enghraifft, mewn ffontiau mawr ar gyfer defnyddwyr â nam ar eu golwg, fersiynau sain ar gyfer pobl ag anawsterau clywed ac mewn ieithoedd eraill.

8. Mae pob sefydliad darparu wedi cynllunio ei broses ymgeisio ei hun ar gyfer pobl sy'n gofyn am addasiad tai. Mae'r systemau a'r prosesau a ddefnyddir gan sefydliadau darparu yn amrywio o gorff i gorff, er bod ganddynt ofynion cenedlaethol ar gyfer sefydliadau sy'n darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) a Grantiau Addasiadau Ffisegol (PAG). Roedd gwahaniaeth mewn dulliau gweithredu a systemau gweinyddu cymhleth yn aml yn creu anawsterau i bobl anabl a phobl hŷn sy'n ceisio cymorth.

9. Mae therapyddion galwedigaethol yn nodi'r gwaith sy'n "angenrheidiol ac yn briodol" i ddiwallu anghenion pobl anabl neu bobl hŷn, ond nid yw trefniadau presennol yn sicrhau bod pobl anabl a / neu hŷn yn cael budd o broses syml ac effeithlon. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod nifer o wendidau yn y prosesau hyn.⁵

10. Nododd ychydig llai na hanner yr awdurdodau lleol y gallai gymryd amser sylweddol i gwblhau'r prawf modd. Bydd yr oedi'n aml yn cael ei achosi oherwydd manylder yr wybodaeth y mae'n ofynnol i ymgeiswyr am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ei darparu, fel prawf o deitl, a gwybodaeth ariannol gynhwysfawr. Roedd sefydliadau darparu yn cydnabod bod y prawf modd hefyd yn annheg mewn perthynas â'r dewisiadau cyllido eraill. Roeddent hefyd yn teimlo bod lle i ddadlau nad oedd y prawf modd yn cynrychioli gwerth am arian gan ei bod hi'n cymryd cymaint o amser i gwblhau'r prawf hwnnw o gymharu â lefel y grant oedd i'w ddarparu.⁶

⁵ Archwilydd Cyffredinol Cymru, Addasiadau Tai, 22 Chwefror 2018, Paragraff 2.20

⁶ Cofnod y Trafodion, 18 Mehefin 2018, Paragraff 184

11. Nododd tystion fod 90% o addasiadau yn costio llai na £500 a bod y gwaith o gwblhau'r profion modd yn ddrud i'w weinyddu, ac nad yw'n cynrychioli gwerth am arian. Mae profion modd hefyd yn atal pobl hŷn a phobl anabl rhag gwneud cais, a theimlai tystion ei bod yn annheg i berchnogion preswyl fod yn agored i hyn a chael eu trin yn wahanol i denantiaid.

12. Bydd prosesau cymeradwyo Llywodraeth Cymru yn aml yn achosi oedi cyn i gymdeithasau tai allu cyflenwi Grantiau Addasiadau Ffisegol, yn enwedig yn achos gwaith ar raddfa fwy, lle mae angen cymeradwyaeth cyn dechrau ar y gwaith. Fel rhan o'r broses gymeradwyo, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn adolygu asesiad y Therapydd Galwedigaethol o'r angen am addasiad ac addaswydd yr adeilad, a gall hynny ychwanegu llawer o wythnosau (os nad misoedd) at y broses. Dywedodd oddeutu 82% o landlordiaid eu bod wedi wynebu oedi oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i gymdeithasau ddarparu tri dyfynbris, a chyfeiriodd 64% at oedi o ganlyniad i brosesau cymeradwyo Llywodraeth Cymru. O gofio bod y rhan fwyaf o Grantiau Addasiadau Ffisegol sy'n uwch na £5,000 yn cael eu cymeradwyo heb fawr o her na newidiadau, mae cymdeithasau tai o'r farn bod y prosesau hyn yn ddianghenraid o feichus, yn enwedig gan fod y system yn gyfan gwbl ar bapur ac nad yw wedi ei digido na'i hawtomeiddio.⁷

13. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru eu bod yn cymeradwyo'r rhan fwyaf o Grantiau Addasiadau Ffisegol o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt, ond na allant gadarnhau faint o swyddogion y Grantiau sy'n herio, adolygu neu'n gwrthod ceisiadau. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod bod cyfleoedd i wella sut y maent yn rheoli'r Grantiau Addasiadau Ffisegol, ac mae hwn yn fater y byddant yn ymdrin ag ef drwy'r adolygiad o systemau, sy'n cael ei gomisiynu ar hyn o bryd.⁸

14. Mae awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn profi oedi sy'n deillio o gael caniatâd perthnasol gan gwmnïau cyfleustodau (dŵr yn benodol) ac awdurdodau cynllunio lle mae angen caniatâd cynllunio. Yn aml, gall y rhain arwain at oedi hir ac atal addasiadau rhag symud ymlaen.⁹ Cadarnhaodd tystion y gall yr anawsterau hyn arwain at oedi sylweddol:

“Rwy'n credu bod yr oedi hynny ar gyfer addasiadau mawr – lle mae angen caniatâd cynllunio arnoch neu os ydych angen adeiladu dros y cytundebau carthffosydd neu beth bynnag yw – gall ychwanegu at yr

⁷ Archwilydd Cyffredinol Cymru, Addasiadau Tai, 22 Chwefror 2018, Paragraff 2.28

⁸ Cofnod y Trafodion, 26 Mehefin 2018, Paragraffau 276-279

⁹ Archwilydd Cyffredinol Cymru, Addasiadau Tai, 22 Chwefror 2018, Paragraff 2.30

oedi yn yr hyn sydd eisoes yn broses eithaf hir pan fyddwch chi'n adeiladu estyniad.”¹⁰

15. Nid ydym yn argyhoeddedig bod cyrff darparu yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag oedi o ran cynllunio a chyfleustodau. Nid oedd yr ymatebion gwahanol, yn enwedig o ran pwy sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â materion, yn rhoi unrhyw sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd y problemau hyn yn cael sylw. Rydym yn cydnabod nad yw'r rhain yn broblemau hawdd i'w goresgyn; ond nid yw'r cynnydd cyfyngedig hyd yma, a'r diffyg ymrwymiad a ddangosir, yn dderbyniol.

16. Nodwyd cymhlethdod y system addasiadau yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, a bod angen i gyrff cyhoeddus sy'n darparu addasiadau symleiddio'r gwaith i wella gwerth am arian a darparu gwasanaeth ymatebol i bobl hŷn a phobl anabl. Gwnaethom holi Llywodraeth Cymru ynghylch a yw'r broses ar gyfer gwneud cais am addasiadau a'u hasesu, ac yn arbennig y "prawf modd", yn rhy gymhleth ac a oedd yn dileu awydd pobl i geisio cael addasiad.

17. Cydnabu swyddogion Llywodraeth Cymru fod amrywiadau sylweddol rhwng polisiâu awdurdodau lleol o ran y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac mae'r system gyfredol yn bell o fod yn berffaith. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym eu bod:

“.. wedi ymdrechu ers blynyddoedd lawer i wneud y system yn fwy hyblyg a chael pobl i dderbyn nad yw'n gwneud synnwyr i fod â system gymhleth ar gyfer gwneud addasiadau syml.”¹¹

18. Ychwanegodd Llywodraeth Cymru fod cydnabyddiaeth gynyddol ei bod hi'n bosib gwneud addasiadau bach a chanolig heb brosesau cymeradwyo cymhleth a gor-fiwrocrataidd. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru a chyrrff darparu wneud y gwelliannau sydd eu hangen gyda rhywfaint o frys, gan fod tystion yn derbyn yr achos dros newid.

19. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol nad yw llawer o gyrff darparu wedi rhoi ffocws strategol digonol ar addasiadau, ac yn canolbwyntio ar ymatebion penodol i'r sefydliad yn hytrach na'r ffordd orau o ddiwallu anghenion pobl anabl neu bobl hŷn ar y cyd. Gofynasom sut y gall Llywodraeth Cymru a chyrrff darparu hyrwyddo gwerth strategol addasiadau, a chydweithio, i gynyddu faint o bobl sy'n cymryd rhan?

¹⁰ Cofnod y Trafodion, 18 Mehefin 2018, Paragraff 202

¹¹ Cofnod y Trafodion, 25 Mehefin 2018, Paragraff 264

20. Cytunodd swyddogion Llywodraeth Cymru bod yn rhaid cydweithio ar draws nifer o gyrff, yn enwedig ar draws y sectorau tai, iechyd a gofal cymdeithasol. Nododd swyddogion fod polisi Llywodraeth Cymru “Ffyniant i Bawb”, yn nodi’n benodol bod angen y cydgysylltiad hwnnw, ac mai tai a gofal cymdeithasol yw dau o’r prif flaenoriaethau. Cyfeiriodd hefyd at bwysigrwydd byrddau partneriaeth rhanbarthol ar gyfer datblygu gwaith integreiddio yn y meysydd. Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth nad yw byrddau partneriaeth rhanbarthol yn aml yn cydnabod neu’n gwerthfawrogi gwaith y sector tai a sefydliadau’r trydydd sector a’u bod yn colli cyfleoedd i integreiddio gwasanaethau a manteisio i’r eithaf ar y buddion i bobl hŷn a phobl anabl.¹²

3. Adolygiad GALLUOGI Llywodraeth Cymru

21. Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei hadolygiad “Galluogi”, wedi ceisio ymdrin â rhai o’r gwendidau hyn drwy gyflwyno system newydd ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad wrth ddarparu addasiadau tai. Ar gyfer y system newydd, a gyflwynwyd ddechrau mis Ionawr 2017, mae angen i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai gofnodi’r un gyfres graidd o wybodaeth yn gysylltiedig â phob DFG a PAG a gyflenwir ganddynt. Fodd bynnag, roedd Tai Cymunedol Cymru hefyd yn cydnabod gwendidau gyda gwaith “Galluogi”, gan ddweud wrthym:

“I think it’s fair to say that not all providers of adaptations have got to the same level of understanding of what ENABLE is going to deliver and what it’s going to do..... providers aren’t completing the data collection forms for fear of performance being judged by Welsh Government.”¹³

22. Roeddem yn pryderu am ganfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, er bod y safonau perfformiad newydd a gyflwynwyd drwy adolygiad Galluogi yn gam ymlaen o ran galluogi sefydliadau darparu i farnu ynghylch effeithiolrwydd eu systemau rheoli, nid yw rhai o’r prif achosion wrth wraidd yr oedi a nodwyd yn ein hadolygiad wedi’u cynnwys. Yn benodol, data sy’n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth gan gwmnïau cyfleustodau; oedi a achosir yn sgîl dewisiadau neu benderfyniadau’r ymgeisydd/aelwyd; bod data cydraddoldeb yn cynnwys ethnigrwydd yr ymgeisydd; oedi a achosir oherwydd anhawster wrth ddewis contractwyr; a’r amser a gymerir a chanlyniad yr asesiad o addasrwydd cartref i’w addasu. Bydd y bylchau hyn yn cyfyngu ar ddefnyddioldeb y data a

¹² Cofnod y Trafodion, 18 Mehefin 2018, Paragraffau 224 a 228

¹³ Cofnod y Trafodion, 18 Mehefin 2018, Paragraff 159

gesglir ac ni fydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru a sefydliadau darparu gynnal gwerthusiad llawn o bob agwedd ar y system addasu gymhleth.¹⁴

23. Gofynasom i Lywodraeth Cymru ymateb i'r pryderon a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a thystion, y bydd y bylchau hyn o ran casglu data yn amharu'n ddifrifol ar ddefnyddioldeb y data. Derbyniodd Emma Williams, o Lywodraeth Cymru, nad oedd y system casglu data yn cwmpasu popeth, ond roedd yn ceisio taro'r cydbwysedd cywir rhwng casglu data ar offer cymorth ac addasiadau ar raddfa fach yn ogystal âg ar raddfa fawr. Ychwanegodd fod y grŵp llywio wedi codi nifer o feysydd yr hoffent edrych yn fanylach arnynt o ran sut mae casglu data, a sut y gellir ei ddefnyddio.

24. Roeddem yn awyddus i weld a oedd unrhyw ddata yn cael ei gasglu y gellid ei ddefnyddio i ddadansoddi effaith addasiadau, a dywedwyd wrthym, er bod trafodaethau wedi digwydd ar rinweddau hyn, ni chafwyd unrhyw gamau i fynd i'r afael â'r mater. Roedd y Pwyllgor yn ystyried bod hyn yn debyg i "gicio'r llwch i'r gwynt", oherwydd bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi nodi problem, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod problem a bod angen gweithredu mewn rhyw ffordd, ond ni roddwyd dim ymrwymiad y bydd newid yn digwydd. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod yr arweinyddiaeth sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i wella'r modd y caiff addasiadau eu gwerthuso ar goll.

25. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i ni ar yr adolygiad Galluogi a nododd bod y gwaith, hyd yma, wedi bod yn gam agosáu ac mae adolygiad Galluogi cam 2 (y cyfeirir ato gan dystion fel y "Grŵp Datblygu Addasiadau Mwy") yn prysuro ar ei hynt. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella y mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â nhw yn wendidau hirdymor a nodwyd yn flaenorol, lle bu cynnydd annigonol a/neu aneffeithiol.

26. Yn ystod sesiynau tystiolaeth lafar, clywsom fod aelodaeth y "Grŵp Datblygu Addasiadau Mwy" newydd yn cynnwys awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, Gofal a Thrwsio ac, yn fwy diweddar, Tai Pawb. Nododd tystion rai o gyfyngiadau'r grŵp newydd:

- Nid yw polisi Llywodraeth Cymru yn cwmpasu cymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (LSVT) ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y gwaith adolygu Galluogi hyd yn hyn. Mae'r eithriad hwn yn atgyfnerthu anghysonderau rhwng asiantaethau darparu ac mae'n golygu bod tenantiaid cymdeithasau trosglwyddo stoc yn derbyn

¹⁴ Archwilydd Cyffredinol Cymru, Addasiadau Tai, 22 Chwefror 2018, Paragraff 4.13

safonau gwasanaethau gwahanol iawn i gymdeithasau tai traddodiadol yn y gymuned.¹⁵

- Mae cyfranogiad y trydydd sector yn gyfyngedig, ac mae pryderon nad yw llais pobl hŷn a phobl anabl yn rhan o'r drafodaeth. Mynegodd sefydliadau'r trydydd sector ofnau bod cyrff darparu'n canolbwyntio gormod ar eu trefniadau mewnol a llai ar wella profiad cwsmeriaid.¹⁶

27. Codwyd pryderon difrifol gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y cyfyngiadau hyn, a heriwyd hwy ynghylch gwahardd cymdeithasau tai Trosglwyddo Gwirfoddol Graddfa Fawr (LSVT). Eglurodd Ms Burke fod rheswm hanesyddol pam na chynhwyswyd stoc LSVT, ond roedd yn cydnabod bod hyn yn annerbyniol, a dywedodd y byddent yn mynd i'r afael â'r diffyg hwn.¹⁷ Fodd bynnag, cadarnhaodd Ms Williams y byddai hyn yn cymryd peth amser. Er enghraifft, ni chaiff data ei gasglu oddi wrth gymdeithasau LSVT tan 2019-20, ac ni adroddir yn ei gylch tan 2020-21 fan gynharaf.

28. Mewn llythyr at y Pwyllgor, fodd bynnag, nododd Ms Burke mai "Casglu data Galluogi' yw casglu gwybodaeth am addasiadau oddi wrth bod sefydliad, ac mae hyn yn cynnwys LSVT".¹⁸ Nid yw'n glir, fodd bynnag, pryd y dechreuodd Llywodraeth Cymru gasglu'r data hwn, a phryd y cyhoeddir gwybodaeth am berfformiad cymdeithasau LSVT yn benodol.

4. Gwella goruchwyliaeth a Gwerthuso Effaith

29. Er gwaethaf yr amrywiaeth eang o wahanol ffynonellau cyllid ar gyfer addasiadau tai, dim ond amrywiaeth bach o ddangosyddion perfformiad a adroddir yn eu cylch yn gyhoeddus ar raddfa genedlaethol.¹⁹

30. Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol na cheir dangosyddion perfformiad a adroddir yn genedlaethol ar gyfer cymdeithasau tai ynghylch cyflenwi Grantiau Addasiadau Ffisegol, er bod Llywodraeth Cymru'n casglu peth ddata ar wariant a nifer y Grantiau Addasiadau Ffisegol a gyflenwir ym mhob blwyddyn ariannol. Yn yr un modd, er bod Llywodraeth Cymru yn derbyn gwybodaeth am berfformiad Gofal a Thrwsio mewn perthynas â'r Rhaglen Addasiadau Brys, ni chaiff yr wybodaeth honno ei chyhoeddi. Mae'r diffyg

¹⁵ Cofnod y Trafodion, 18 Mehefin 2018, Paragraff 192

¹⁶ Cofnod y Trafodion, 18 Mehefin 2018, Paragraff 302

¹⁷ Cofnod y Trafodion, 25 Mehefin 2018, Paragraff 238

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-21-18.PTN2, 16 Gorffennaf 2018

¹⁹ Archwilydd Cyffredinol Cymru, Addasiadau Tai, 22 Chwefror 2018, Paragraff 4.5

dangosyddion perfformiad a adroddir yn genedlaethol yn golygu nad yw'n bosibl cynnal gwerthusiad llawn, na chael dealltwriaeth lawn o berfformiad neu effeithiolrwydd asiantaethau unigol, nac effeithlonrwydd ac effaith y system addasu yn ei "chyfanrwydd".

31. Hefyd, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod sefydliadau darparu yn canolbwyntio'n bennaf ar reoli perfformiad a gwerthuso mewnbynnau a'r hyn a gyflawnir o ran darparu addasiadau. Er bod llawer o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn cydnabod pwysigrwydd addasiadau er mwyn galluog pobl anabl a phobl hŷn i fyw'n annibynnol, ac er mwyn atal y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ychydig o dystiolaeth a welsom fod sefydliadau darparu yn cynnal gwerthusiad cadarn o'r buddion ehangach a thymor hwy hyn yn sgîl addasu.²⁰

32. Bydd amrywiaeth o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio yn cynnal arolygon bodlonrwydd ar ôl cyflawni gwaith addasiadau gyda phobl anabl a phobl hŷn. Mae'r defnydd a wneir o adborth defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn amrywio'n eang, ac fe welsom gyfleoedd i ddefnyddio'r adborth hwn i atgyfnerthu dealltwriaeth a gwella'r ddarpariaeth. Fel rheol, cynhelir arolygon yn syth ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu ffisegol, ac nid yw hynny'n rhoi cyfle i ystyried yn llawn pa fudd a geir yn ei sgîl i bobl anabl a phobl hŷn. Gan amlaf, ni chaiff canlyniadau allweddol fel annibyniaeth, llesiant, gostyngiadau mewn damweiniau neu godymau eu casglu.²¹

33. Roedd llawer o dystion yn cydnabod y cyfyngiadau o ran yr adroddiadau cyfredol ar addasiadau sy'n gwanhau atebolrwydd a dulliau craffu ar berfformiad. Er bod nifer o dystion yn nodi rhai o'r gwelliannau a ddaeth yn sgîl yr adolygiad Galluogi, gyda gwybodaeth safonol ar gael ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a Grantiau Addasiadau Ffisegol, roedd eraill yn cydnabod cyfyngiadau o ran y gwaith hyd yn hyn.

"The measures at the moment, like the performance indicators for DFGs, are a very crude measure of what a good adaptation process looks like. It doesn't really take account of the impact it has on a person; it doesn't reflect the principles of voice, choice and control; it doesn't ask people what they actually want from the adaptation, and whether what they wanted has been realised through an adaptation."²²

²⁰ Archwilydd Cyffredinol Cymru, Addasiadau Tai, 22 Chwefror, Paragraff 4.17

²¹ Archwilydd Cyffredinol Cymru, Addasiadau Tai, 22 Chwefror 2018, Paragraff 4.18

²² Cofnod y Trafodion, 18 Mehefin 2018, Paragraff 284

34. Nododd tystion nad oedd y safonau newydd yn canolbwyntio ar y camau cywir a bod angen eu mireinio ymhellach i fod yn wirioneddol ddefnyddiol. Yn ychwanegol, dywedodd tystion nad oedd rhai cyrff darparu wedi cyflwyno gwybodaeth, tra bod eraill yn darparu data anghyflawn. Codwyd y mater bod cymdeithasau trosglwyddo stoc y tu allan i'r system oruchwylio hefyd, ac yn dilyn hynny mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r mater. Yn olaf, o ystyried nad oes adrodd cyhoeddus wedi digwydd, nid yw'n bosibl barnu a yw'r system rheoli perfformiad ac adrodd newydd yn addas i'r pwrpas.

35. Gwnaethom holi Llywodraeth Cymru ynghylch y diffyg gwybodaeth a gyhoeddir am ba mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn perfformio wrth ddarparu addasiadau, ac a yw cyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru yn adrodd yn fwy agored ar berfformiad i wella'r modd y caiff adnoddau eu darparu a'u defnyddio. Cytunodd Ms Burke y dylai fod mwy o natur agored o ran gwybodaeth am berfformiad ac mai dyma'r bwriad drwy gasglu data Galluogi. Ychwanegodd y byddai'r data a gesglir yn ystod blwyddyn gyntaf y system newydd yn cael ei chyhoeddi.

36. Rydym yn bryderus iawn mai dim ond saith o'r 22 awdurdod lleol ac 11 o'r 33 o gymdeithasau tai sy'n casglu gwybodaeth am gydraddoldeb o ran derbynyddion addasiadau tai, i farnu o ran mynediad teg wrth ddarparu gwasanaethau. Gofynasom beth y gellir ei wneud i fynd i'r afael â'r perfformiad gwael hwn? Cytunodd Ms Burke fod y perfformiad hwn yn annerbyniol a'i bod yn siomedig i ddarllen y canfyddiadau hyn yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Eglurodd fod telerau ac amodau diwygiedig nawr, fel ei bod yn ofynnol cofnodi'r wybodaeth honno.

37. Er ein bod yn croesawu'r gydnabyddiaeth hon, nes bod y wybodaeth hon ar gael, rydym yn parhau'n amheus a fydd mor gynhwysfawr ag y dylai fod. Mae casglu gwybodaeth gyflawn a chadarn yn fater hirsefydlog i Lywodraeth Cymru, ac felly nid oes gennym lawer o hyder y bydd hyn yn cael sylw digonol.

5. Casgliadau ac argymhellion

38. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo canfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ac ar ôl ystyried y dystiolaeth mae'n credu bod yr adroddiad wedi darparu'r llwyfan a'r ysgogiad i gyflawni gwelliannau sydd eu hangen yn fawr ac sy'n hirymarhous. Rydym yn cydnabod bod anghysondeb yn y broses o ddarparu gwasanaethau wedi bod yn broblem a ysgogir yn bennaf yn sgîl gwahanol ffrydiau ariannu a deiliadaethau y mae pobl yn byw ynddynt.

39. Adleisiodd y dystiolaeth a glywyd lawer o gasgliadau adolygiadau blaenorol y Pwyllgor yn 2005, 2013 a 2015, ond os bernir yn ôl perfformiad blaenorol, nid ydym yn argyhoeddedig y bydd Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill yn mynd i'r afael â'r problemau hyn sydd wedi'u dogfennu'n dda. Yn anffodus, mae arweinyddiaeth strategol, uchelgais a phenderfynoldeb wedi bod ar goll yn y blynyddoedd diwethaf ac nid yw'r dystiolaeth a glywsom "bod pethau ar fin newid a gwella" yn ddigon i'n darbwylo.

40. Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a ganlyn. Rydym yn bwriadu monitro'r broses o ddarparu yn fanwl, a mynnwn fod Llywodraeth Cymru yn adrodd i'r Pwyllgor am y cynnydd a wna wrth fynd i'r afael â'r rhain.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r data perfformiad y mae wedi'i chasglu fel rhan o'r adolygiad Galluogi erbyn mis Tachwedd 2018. Wrth gyhoeddi'r wybodaeth hon, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir unrhyw ddiffygion yn y rownd gyntaf o wybodaeth am berfformiad a gasglwyd, er enghraifft, sefydliadau nad ydynt yn darparu gwybodaeth, a sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r bylchau hyn.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i sefydlu safonau isaf ar gyfer pob addasiad, i sicrhau bod pobl anabl a phobl hŷn yn derbyn gwasanaeth o'r un safon waeth ble maent yn byw, pwy yw eu landlord ac a ydynt yn berchen ar eu cartref eu hunain ai peidio. Yn arbennig, dylent sicrhau bod y data sy'n sail i'r ymarfer hwn yn gadarn ac yn gynhwysfawr. Yn eu hymateb i Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, nododd Llywodraeth Cymru ddyddiad cwblhau, sef mis Rhagfyr 2019. O ystyried cynnydd araf yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen mwy o frys gan Lywodraeth Cymru yn hyn o beth, ac y dylid ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2019. Bydd y Pwyllgor yn monitro'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod y safonau gofynnol wedi'u sefydlu a'u lledaenu erbyn mis Gorffennaf 2019.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn pennu safonau clir ar gyfer nodi prawf modd ar gyfer DFGs. Derbyniodd Llywodraeth Cymru ei bod hi'n bosib ymgymryd ag addasiadau ar raddfa fach a chanolig heb greu prosesau cymeradwyo cymhleth a gor-fiwrocraidd, ond roedd yr amrywiad mewn dulliau awdurdodau lleol wedi arwain at loteri cod post ar gyfer ymgeiswyr. Felly, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r dulliau presennol ac yn llunio canllawiau sy'n nodi'n glir y gwerth a'r math o waith addasiadau lle y dylid defnyddio'r prawf modd, a phryd y mae angen gweithredu yn ôl y safonau cymeradwyo isaf. Bydd y Pwyllgor yn monitro cynnydd o ran y gwaith hwn erbyn mis Gorffennaf 2019 fan bellaf.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer sefydliadau darparu, i wella'r arfer o integreiddio gwasanaethau, er enghraifft drwy dimau darparu integredig. Nodwn fod yna berthynas gref rhwng presenoldeb timau darparu integredig, ac arferion da wrth ddarparu addasiadau. Felly, rydym yn argymhell, fel rhan o'i waith Galluogi, fod Llywodraeth Cymru yn nodi natur y berthynas hon a sut mae hyn wedi sicrhau gwell canlyniadau. Bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddangos i'r Pwyllgor fod y gwaith hwn wedi'i wneud, erbyn mis Gorffennaf 2019 fan bellaf.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, drwy'r "Grŵp Datblygu Addasiadau Gwell" newydd yn ceisio sicrwydd bod sefydliadau darparu yn cymryd y camau angenrheidiol i gyflawni argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol. O gofio bod y tystion, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wedi derbyn canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol a'r angen am newid, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru arwain y gwaith o sicrhau bod y gwendidau parhaol hyn yn cael sylw. Byddwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddangos i'r Pwyllgor fod y gwaith hwn yn mynd rhagddo, erbyn mis Rhagfyr 2019 fan bellaf.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei ddangosyddion perfformiad cenedlaethol ar gyfer casglu data yn 2019-20. Dylai'r dangosyddion gael eu llunio i ganiatáu i sefydliadau darparu werthuso eu perfformiad, llywio eu strategaeth a gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y camau diwygiedig yn:

- Adlewyrchu'r safonau gofynnol lleiaf a ddatblygwyd ar gyfer addasiadau i ganiatáu gwerthusiad o effaith, llesiant a manteision ehangach buddsoddi mewn addasiadau.
- Ymdrin â'r diffygion a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol (paragraff 4.13); ac yn
- Ymdrin ag unrhyw fylchau a nodwyd yn sgîl y gwaith o fonitro a gwerthuso blwyddyn gyntaf GALLUOGI.

Bydd y Pwyllgor yn monitro i ba raddau y mae'r argymhelliad hwn wedi'i gyflawni, erbyn mis Rhagfyr 2019 fan bellaf.

Atodiad A – Tystion

Ystyriodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Addasiadau Tai ym mis Mawrth 2018 a chynhaliodd ymchwiliad byr yn nhymor yr haf 2018.

Sesiwn dystiolaeth	Dyddiad, Agenda a Chofnodion	Trawsgrifiad	Fideo
1. Jim McKirdle - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Gaynor Toft - Cyngor Sir Ceredigion Julian Pike - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	<u>Dydd Llun 18 Mehefin</u>	<u>Darllenwch y Trawsgrifiad o'r Sesiwn Dystiolaeth</u>	<u>Gwyliwch Sesiwn Dystiolaeth 1 ar SeneddTV.</u>
2. Stuart Ropke, Cartrefi Cymunedol Cymru Chris Jones, Gofal a Thrwsio Cymru	<u>Dydd Llun 18 Mehefin</u>	<u>Darllenwch y Trawsgrifiad o'r Sesiwn Dystiolaeth</u>	<u>Gwyliwch sesiwn dystiolaeth 2 ar Senedd.tv.</u>
3. Alicja Zalesinska - Tai Pawb Ruth Nortey - Anabledd Cymru Rhian Stangroom-Teel - Leonard Cheshire Disability	<u>Dydd Llun 18 Mehefin</u>	<u>Darllenwch y Trawsgrifiad o'r Sesiwn Dystiolaeth</u>	<u>Gwyliwch sesiwn dystiolaeth 3 ar Senedd.tv.</u>
4. Llywodraeth Cymru Tracey Burke John Howells Emma Williams	<u>Dydd Llun 25 Mehefin</u>	<u>Darllenwch y Trawsgrifiad o'r Sesiwn Dystiolaeth</u>	<u>Gwyliwch sesiwn dystiolaeth 4 ar Senedd.tv.</u>